# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-12-09)

**Dyddiad: 11 Mai 2009**
**Amser: 16:00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.1: Offerynnau sy’n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC279 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 18 Ebrill 2009. Fe’i gosodwyd ar 21 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 1 Mehefin 2009
Mae’r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995. Mae’n gwneud darpariaeth ar gyfer datganiadau dylunio a mynediad sy’n angenrheidiol i gyd-fynd â mathau penodol o geisiadau cynllunio.

SLC280 - Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygio) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 18 Ebrill 2009. Fe’u gosodwyd ar 21 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 1 Mehefin 2009
Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i wneud darpariaeth ar gyfer datganiadau dylunio a mynediad sy’n angenrheidiol i gyd-fynd â cheisiadau penodol ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig.

SLC281 - Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 27 Ebrill 2009. Fe’u gosodwyd ar 28 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 20 Mai 2009
Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach (o ran Cymru) Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996, a osododd y prawf modd i benderfynu swm y grant y caniateir ei dalu gan awdurdodau tai lleol o dan Bennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

SLC282 - Rheoliadau Cynhyrchion Sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 27 Ebrill 2009. Fe’u gosodwyd ar 28 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 28 Mai 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Cynhyrchion Sy'n Dod o Anifeiliaid (Cymru) 2007 er mwyn cymryd i ystyriaeth y newidiadau mewn mewnforion personol a ganiateir o drydydd gwledydd a achoswyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 206/2009 ar gyflwyno llwythi personol o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'r Gymuned.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu Rheoliadau Cynhyrchion Sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006.

### Eitem 3: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 3.1: Offerynnau sy’n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC283 - Y Rheoliadau Meini Prawf Purdeb ar gyfer Lliwiau, Melysyddion ac Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 27 Ebrill 2009. Fe’u gosodwyd ar 29 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 25 Mai 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu tair Cyfarwyddeb y Comisiwn sy'n llywodraethu meini prawf purdeb ar gyfer lliwiau, melysyddion ac ychwanegion amrywiol eraill a ddefnyddir mewn bwydydd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach, o ran Cymru, Reoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995, Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995 a Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995.

### Eitem 4: Mesur Arfaethedig Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 200 -

SLC(3)-12-09(p3): Adroddiad drafft y cynghorwyr cyfreithiol ar Fesur Arfaethedig Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 200-

SLC(3)-12-09(p4): Mesur Arfaethedig Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=122850&ds=3/2009

SLC(3)-12-09(p5): Mesur Arfaethedig Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Memorandwm Esboniadol

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=122851&ds=3/2009

### Eitem 5: Ystyried y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)

### Eitem 5.1: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol - Dr Brian Gibbons AC

SLC(3)-11-09(p3): Y Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)

SLC(3)-11-09(p4): Memorandwm Esboniadol i'r Mesur Arfaethedig yngylch Plant a Theuluoedd (Cymru)

SLC(3)-11-09(p6): Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol - Nodyn ar ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth

SLC(3)-11-09(p7): Llythyr y Gweinidog i Val Lloyd AC, Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, ynghylch yr angen posibl am ddarpariaethau ychwanegol yn y Mesur

SLC(3)-121-09(p1): Llythyr gan y Cadeirydd yn gwahodd y Gweinidog

### Caiff y Pwyllgor ei wahodd i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi):

Caiff pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi

### Eitem 5.2: Ystyried tystiolaeth

### Eitem 6: Y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (Mesur Seneddol) : ystyried yr adroddiad drafft

SLC (3)-10-2009(p1): Y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (Mesur Seneddol) a Nodiadau Esboniadol:

**http://services.parliament.uk/bills/2008-09/apprenticeshipsskillschildrenandlearning.html**

(Saesneg yn unig)

SLC (3)-11-09(p1): Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol

SLC (3)-12-09(p2): Adroddiad drafft

### Papurau i'w nodi:

SLC (3)-10-09(p2): Llythyr y Cadeirydd at Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

SLC (3)-10-09(p3): Ymateb y Gweinidog i'r Cadeirydd

SLC (3)-10-09(p4): Memorandwm gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, a'r Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau i Bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar Bwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio

SLC (3)-10-09(p5): Ymateb dros dro y Pwyllgor Menter a Dysgu i'r Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (Mesur Seneddol)

SLC (3)-11-09(p2): Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu (a osodwyd ddydd Iau 26 Mawrth 2009)

### Eitem 6: Unrhyw fater arall

### Eitem 7: Dyddiad y cyfarfod nesaf